AC(2) 06-04(p4)

# <u>Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Adnewyddu Tai y Sector Preifat yng Nghymru</u>

**<u>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiolchgar am yr Adroddiad. Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i naw argymhelliad yr adroddiad</u>**

Roedd y Pwyllgor yn **<u>argymell</u>** bod y Cynulliad:

## *Argymhelliad i*

yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am ganlyniad yr Arolwg o Gartrefi ac Anheddau Cymru gan nodi a lwyddodd i gyflawni ei darged o wella ansawdd y stoc tai yng Nghymru ai peidio;

Cytunwyd. Bydd y Pwyllgor yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf maes o law ar ganlyniadau yr arolwg 'Byw yng Nghymru'. Mae'r arolwg ar droed ac mae disgwyl y canlyniadau cyntaf yng nghanol 2005.

### *Argymhelliad ii*

yn ailystyried a yw arolygon cenedlaethol ar gyflwr tai yn cael eu cynnal yn ddigon rheolaidd;

Cytunwyd. Yn dilyn cwblhau'r arolwg 'Byw yng Nghymru' bydd nifer yr arolygon cenedlaethol sy'n cael eu cynnal yn y dyfodol yn cael ei ailystyried.

### *Argymhelliad iii*

yn sicrhau y gall olrhain newidiadau yn ansawdd y stoc tai pan fydd y system newydd yn seiliedig ar iechyd a diogelwch yn dod i rym fel y gall feincnodi newidiadau yn erbyn data hanesyddol sydd eisoes ar gael;

Cytunwyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn edrych ar ffyrdd y gellir cynnwys y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) mewn arolygon yn y dyfodol wedi i'r system gael ei chyflwyno. Mae'r System newydd yn hollol wahanol i'r safon addasrwydd presennol ac yn glynnu llawer mwy at faterion iechyd a diogelwch. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried i ba raddau y gellir cysylltu data o'r arolwg presennol gyda'r system newydd.

### *Argymhelliad iv*

parhau yn effro i'r risg allweddol hon ynglŷn â datganoli pŵer i awdurdodau lleol a pharhau i chwarae rôl lawn yn y bartneriaeth ag awdurdodau lleol;

Cytunwyd. Ceir amlinelliad o amcanion strategol y Cynulliad ar gyfer Tai yng Nghymru yn ei Strategaeth Dai Genedlaethol "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru". Yr awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am ddatblygu polisïau ar gyfer adnewyddu tai lleol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau o fewn fframwaith y canllawiau cynhwysfawr ar adnewyddu tai a baratowyd ganddi i gyflawni'r nodau a'r amcanion yn y Strategaeth Dai Genedlaethol. Mae Cyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth y Cynulliad eisoes mewn cysylltiad â Chymdeithas

Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru i drefnu seminarau i ystyried y datblygiadau gyda pholisïau adnewyddu awdurdodau lleol ac i nodi arferion da.

***Argymhelliad v***

yn arbennig yn ystod blynyddoedd cynnar y polisi newydd, yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i gynhyrchu polisïau lleol priodol ac arloesol o'r safon uchaf bosib er mwyn gwella'n barhaus ansawdd yr eiddo yn y sector preifat ledled Cymru;

Cytunwyd. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ar ddatblygu eu polisïau adnewyddu tai ac yn ystyried a ddylid adolygu'r canllawiau presennol ar adnewyddu tai yng ngoleuni profiad ac arferion da. Bydd trafodaethau pellach gydag awdurdodau lleol ar eu gwaith gyda'u polisïau newydd a gyda datblygu dulliau dyfeisgar o gynnal gwaith adnewyddu. Mae disgwyl i seminarau ar arfer da gael eu cynnal yn yr Hydref 2004.

***Argymhelliad vi***

yn parhau i gadw golwg ar y risg o dwyll, gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod systemau trylwyr yn eu lle yn lleol a bod gwersi perthnasol yn cael eu rhannu ar draws y sector;

Cytunwyd. Mae'r canllawiau a anfonwyd at awdurdodau lleol yng nghylchlythyr 20/02 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cyngor eglur iawn ar yr angen i drefnu systemau pendant a chadarn i ddelio gyda thwyll posib o dan y trefniadau newydd. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i adolygu'r perygl o dwyll gan weithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdodau lleol. Bydd yn cymryd sylw o fentrau i atal twyll ac yn sicrhau bod gwersi ac enghreifftiau o arferion da yn cael eu rhannu. Mae awdurdodau lleol hefyd yn atebol i'r Comisiwn Archwilio a'r Archwilydd Dosbarth yn hyn o beth.

***Argymhelliad vii***

yn ystyried sut y gallai adolygu'r modd y mae awdurdodau lleol yn darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl yn effeithiol ac yn effeithlon ac annog gweithredu arferion da;

Cytunwyd. Mae arolwg o Addasiadau Tai yng Nghymru eisoes ar y gweill. Mae hynny'n cynnwys edrych ar ffyrdd effeithiol ac effeithlon o ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl (DFG). Yn dilyn yr adolygiad bydd Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi canllawiau newydd ar gyfer awdurdodau lleol. Bydd yn cynnwys enghreifftiau o arferion da. Mae disgwyl i'r adolygiad gael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2005.

***Argymhelliad viii***

yn ymchwilio i'r ffordd y mae benthyciadau yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig ac ystyried y ffordd orau o'u cymhwyso yng Nghymru;

Cytunwyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn edrych ar sut y mae benthyciadau yn cael eu datblygu mewn ardaloedd eraill yn y DU a bydd yn cydweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i ystyried i ba raddau y gellid cynnal peilot yng Nghymru. Bu swyddogion yn cyfarfod ag asiantaeth fenthyciadau yn Lloegr yn gynharach eleni ac mae'r trafodaethau cychwynnol gydag awdurdodau lleol wedi bod yn ffafriol. Mae cyfarfodydd pellach wedi eu

trefnu gydag awdurdodau lleol, asiantaethau benthyciadau a chydweithwyr yn yr Alban a Lloegr i ddatblygu peilot addas. Bydd y peilot hwnnw yn defnyddio'r profiad a'r arbenigedd sydd wedi ei ddatblygu mewn ardaloedd eraill o'r DU.

***Argymhelliad ix***

pan fydd yn adrodd yn ôl ar ganlyniad yr Arolwg o Gartrefi ac Anheddau Cymru (argymhelliad i), yn rhoi gwybod hefyd i'r Pwyllgor pa gynnydd a wnaed yn rheoli'r holl risgiau a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Cytunwyd. Bydd y Pwyllgor yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd yn rheoli'r risgiau pan fydd Llywodraeth y Cynulliad yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r Arolwg.